## ATODLEN 5

Rheoliad 17

## PRAWF DADANSODDOL AR GYFER GWINOEDD O SAFON PSR

Rhaid i'r prawf dadansoddol ar gyfer unrhyw win y mae ei gynhyrchydd wedi gofyn iddo gael ei ddynodi'n “quality wine psr” (yn ddarostyngedig i baragraff rhif 5 isod) gynnwys mesur pob ffactor a bennir yn y pennawd i baragraff â rhif yn yr Atodlen hon, a'r safon a bennir yng ngweddill y paragraff hwnnw yw'r safon (os oes un) y mae'n ofynnol ei bodloni mewn perthynas â'r ffactor hwnnw er mwyn i'r gwin gael ei ddynodi felly.

*Cryfder Alcoholaidd*

**1.** Cryfder alcoholaidd o 5.5% o leiaf ar gyfer gwinoedd nad yw eu cryfder alcoholaidd naturiol yn llai na 10%.

Cryfder alcoholaidd o 8.5% o leiaf ar gyfer gwinoedd eraill.

*Cyfanswm Echdyniad Sych (a geir drwy ddwysfesureg)*

**2.** O leiaf 15 g/l.

*Rhydwytho Siwgrau*

**3.** Dim safon y mae'n ofynnol ei bodloni.

*Cyfanswm Asidedd*

**4.** Lleiafswm o 5 g/l wedi'i fynegi fel asid tartarig.

*Asidedd Anweddol*

**5.** Uchafswm cynnwys o ran asid anweddol fel y'i disgrifir ym mhwynt B, paragraff 1(a), (b) neu (c), o Atodiad V i Reoliad 1493/1999, fel y'i darllenir gydag Erthygl 20 o Reoliad 1622/2000, ac Atodiad XIII iddo.

*pH*

**6.** Dim safon y mae'n ofynnol ei bodloni.

*Sylffwr Deuocsid Rhydd*

**7.** Pan fydd technegau gwinyddol effeithiol yn cael eu defnyddio i sicrhau sefydlogrwydd y gwin, dim lleiafswm, ac fel arall 15 mg/l.

Uchafswm o 45 mg/l ar gyfer gwinoedd sych fel y'u diffinnir yn Erthygl 14(7) o Reoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 3201/90, fel y'i diwygiwyd.

Uchafswm o 60 mg/l ar gyfer gwinoedd eraill.

*Cyfanswm y Sylffwr Deuocsid*

**8.** Uchafswm fel y'i diffinnir ym mhwynt A, paragraffau 1 a 2(a) a (b), o Atodiad V i Reoliad 1493/1999.

*Copr*

**9.** Uchafswm o 0.5 mg/l.

*Haearn*

**10.** Uchafswm o 8 mg/l.

*Sterileiddiwch*

**11.** Rhaid peidio â chael unrhyw arwydd o furumau neu facteria sy'n dueddol o ddifetha'r gwin.

*Sefydlogrwydd proteinau*

**12.** Rhaid i olwg y gwin beidio â newid ar ôl cael ei gadw ar 70°C am 15 munud a'i oeri wedyn i 20°C.